Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru

Mehefin 2017

Datganiadau Dylunio
A Mynediad yng Nghymru
Pam, Beth a Sut

Cafodd y canllaw hwn ei baratoi ar gyfer Llywodraeth Cymru
gan Gomisiwn Dylunio Cymru.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-4734-9084-0

Cynnwys

Adran 1: Cyflwyniad

Adran 2: Beth yw Datganiad Dylunio a Mynediad ac oes angen un arnaf i?

Adran 3: Manteision Datganiad Dylunio a Mynediad

Adran 4: Peryglon ac arferion da

Adran 5: Strwythur Datganiad Dylunio a Mynediad a chyfleu'r broses ddylunio

a. Crynodeb o'r cynnig

b. Y briff a'r weledigaeth

c. Dadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun

d. Dehongliad

e. Datblygu dyluniad

f. Y cynnig

i. Nodwedd

ii. Mynediad

iii. Symudiad

iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol

v. Diogelwch Cymunedol

vi. Ymateb i bolisi cynllunio

Safleoedd Treftadaeth y Byd ac ardaloedd cadwraeth

Adran 6: Beth oes nad oes angen Datganiad Dylunio a Mynediad?

Adran 7: Gweithio gyda Datganiadau Dylunio a Mynediad

Atodiad 1: Cyd-destun deddfwriaethol Datganiadau Dylunio a Mynediad

Atodiad 2: Egwyddorion dylunio cynhwysol

Atodiad 3: Darllen ychwanegol

1



Canolfan Ddarganfod Margam, Port Talbot
Cleient: CBS Castell-nedd Port Talbot gyda'r Cyngor Astudiaethau Maes (FSC)
Pensaer: Uned Ymchwil i Ddylunio a Phenseiri Loyn & Co

1

Cyflwyniad

Bu angen cael Datganiadau Dylunio a Mynediad (DDM) yng Nghymru ar gyfer llawer o geisiadau cynllunio ers 2009. Ers hynny dysgwyd llawer am eu defnydd a'r hyn sydd yn creu DDM defnyddiol. Mae'r canllaw hwn yn adeiladu ar y ddealltwriaeth honno ac yn ymateb i'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer DDM o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Ysgrifennwyd y canllaw hwn ar y cyd â Chomisiwn Dylunio Cymru ac mae'n disodli pob canllaw arall.

Cafodd DDM eu cyflwyno i helpu sicrhau bod ansawdd dylunio a mynediad cynhwysol fel ei gilydd yn cael ystyriaeth ddigonol yn y broses gynllunio. Nid yw'r DDM ei hun yn 'creu' dylunio da, yn hytrach dylai arddangos a chyfleu y broses ddylunio resymegol. Mae gofynion DDM yn adlewyrchu amcanion dylunio da fel sy'n cael eu nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) a Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (TAN 12).

Mae'r ddogfen ganllaw hon yn nodi'r gofynion ar gyfer DDM, y manteision o baratoi DDM a rhai o'r peryglon y dylid eu hosgoi wrth baratoi'r ddogfen. Mae Adran 5 yn y ddogfen hon yn cynnig arweiniad am yr hyn y dylid ei gynnwys mewn DDM a'r modd i gyfleu'r cynigion.

Mae'r ddogfen hon yn cynnig arweiniad ar y modd y gall dylunio da gael ei adlewyrchu mewn DDM. Nid yw'n egluro egwyddorion dylunio da sydd i'w gweld mewn mannau eraill o fewn Polisi Cynllunio Cymru, TAN12 a chanllawiau atodol eraill a dylid cyfeirio atynt wrth ddatblygu cynnig.

Yn olaf, mae'r ddogfen yn ymdrin â'r pethau y byddai swyddog sy'n arolygu cais cynllunio yn eu disgwyl ac y dylai gadw llygad arnynt. Darperir cyfres o gwestiynau er mwyn helpu i ddehongli ac adolygu cynigion.

Darllen ychwanegol:

- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Polisi Cynllunio Cymru
- TAN 12: Dylunio

2

Coleg Caerdydd a'r Fro, Caerdydd
Cleient: Rightacres
Pensaer: BDP

2

Beth yw Datganiad Dylunio a Mynediad ac oes angen un arnaf i?

Mae DDM yn cyfleu yr hyn a gynigir ac mae'n arddangos y broses ddylunio a ddefnyddiwyd i gyrraedd y cynnig terfynol.

Mae'n ddogfen a ddylai ystyried cwestiwn allweddol: 'pam ei fod fel yna?' drwy egluro'r modd y mae'r dyluniad wedi ymateb i safle, cyd-destun, briff, gweledigaeth, polisi ac amcanion perthnasol dylunio da. Argymhellir y dylai'r DDM fod yn gryno ac yn cynnwys darluniau ble bynnag y bo modd er mwyn amlygu'r wybodaeth sy'n allweddol i'r dyluniad.

Wrth arolygu DDM bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) yn chwilio am arwyddion eglur o'r sylw y cafodd amcanion dylunio da a'r modd ystyriol, rhesymegol a chreadigol a ddefnyddiwyd i lunio'r cynnig. Gall DDM fod yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniad am y cais, felly dylai egwyddorion sylfaenol y cais fod yn eglur gan ddarparu tystiolaeth ddigonol am ansawdd dylunio'r cynnig. Mae'n ofyniad statudol fod DDM yn cael ei gyflwyno gyda cheisiadau penodol am ganiatâd cynllunio. Ni fydd ceisiadau cynllunio o'r fath yn cael eu dilysu os na fydd DDM yn cael ei ddarparu.

Mae'r cyd-destun deddfwriaethol am yr angen am DDM i'w weld yn Atodiad 1. Bydd y diagram llif sy'n dilyn yn help i benderfynu os oes angen DDM ar gyfer cais penodol.

Nid yw cais am faterion a gedwir yn ôl yn gais am ganiatâd cynllunio ac, o'r herwydd nid yw DDM yn ofyniad statudol. Serch hynny, dylai'r DDM weithredu fel 'dogfen fyw' ac, o'r herwydd, dylai datganiad cynnydd yn diweddaru pa newidiadau, os o gwbl, a ddigwyddodd ers cyflwyno'r DDM gwreiddiol, ddod gyda'r cais am faterion a gedwir yn ôl.

O ran ceisiadau ar gyfer adeilad rhestredig, heneb gofrestredig neu gydsyniad mewn ardal gadwraeth nid oes angen DDM ond dylid cyfeirio at y canllawiau ar Asesiadau ar yr Effaith ar Dreftadaeth a'r Datganiadau ar yr Effaith ar Dreftadaeth (HIS) a ddarperir gan Cadw sy'n darparu canllawiau ar yr hyn sydd ei angen i ddod yn sgil ceisiadau o'r fath. Mewn nifer bychan o achosion, megis cais sy'n ymwneud ag adeilad rhestredig, o fewn ardal gadwraeth ac yn bodloni'r meini prawf a ddangosir yn y diagram cyfagos, mae'n bosibl y bydd angen DDM a HIS fel ei gilydd. Mewn achosion o'r fath dylid cytuno ar y gofynion gyda'r ACLI.

Darllen ychwanegol:

- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd)
- Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Cadw (disgwylir iddo gael ei gyhoeddi ganol 2017)

Nodyn dros dro:
Mae angen DDM ar hyn o bryd i gael caniatâd ar gyfer adeilad rhestredig tan i'r Asesiadau ar yr Effaith ar Dreftadaeth ddod yn ofyniad pan fydd yr angen am DDM yn cael ei ddileu.


DROS DRO
DROS DRO
Ydy'r cais ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig?
Sylwer: Mae angen DDM ar hyn o bryd i gael caniatâd ar gyfer adeilad rhestredig tan i'r Asesiadau ar yr Effaith ar Dreftadaeth ddod yn ofyniad.
N
Y
Ydy'r cais ar gyfer datblygiad mawr (llawn neu amlinellol)?*
Ydy'r cais ar gyfer gweithiau mewnol yn unig?
N
Y
N
Y
GOFYNNOL
DIM YN OFYNNOL
DROS DRO
Ydy'r safle mewn Ardal Gadwraeth neu Safle Treftadaeth y Byd?
Ydy'r cais ar gyfer gweithrediadau mwyngloddio, datblygu gwastraff, lacio amodau (adran geisiadau '73') a cheisiadau am newid sylweddol yn y defynydd o dir neu adeiladau?
N
Y
DIM YN OFYNNOL
N
Y
GOFYNNOL
DIM YN OFYNNOL
Ydy'r cais ar gyfer un neu fwy o anheddau neu greu arwynebedd llawr o 100 metr sgwâr (gros) neu fwy?
*Mae datblygiad mawr yn cynnwys:
- Datblygiad preswyl gyda 10 neu fwy o unedau, neu sy'n digwydd ar safle gydag arwynebedd o 0.5 hectar neu fwy;
- Unrhyw ddatblygiad a fydd yn creu 1,000 metr sgwâr neu fwy o arwynebedd llawr; neu
- Ddatblygiad ar safle gydg arwynebedd o 1 hectar neu fwy.
N
Y
DIM YN OFYNNOL
GOFYNNOL

3

Canolfan Grefft Rhuthun, Sir Ddinbych
Cleient: Canolfan Grefft Rhuthun
Pensaer: Penseiri Sergison Bates LLP

3

Manteision Datganiad Dylunio a Mynediad

Mae paratoi DDM i'w gyflwyno gyda chais yn cynnig nifer o fanteision, yn enwedig fel arf i arddangos a chyfleu'r broses ddylunio. Mae DDM yn gwneud y canlynol:

- **Arddangos dealltwriaeth dda o'r safle, y cyd-destun a'r briff –** nid yw lluniadau ar eu pen eu hunain yn cyfleu'r modd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ymateb i nodweddon unigryw y safle a'i gyd-destun. Y DDM yw'r lle i ddangos y modd y mae'r rhain wedi'u deall a'u hystyried yn y broses ddylunio.
- **Arddangos bod y cynigion yn cytuno ag amcanion ansawdd dylunio a pholisi cynllunio Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru –** dylai pob datblygiad gytuno ag amcanion dylunio da, ond bydd dulliau gwahanol o wneud hyn, ac mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd angen dod o hyd i gydbwysedd i fynd i'r afael â blaenoriaethau cystadleuol. Dylai'r DDM egluro'r modd y cafodd yr amcanion yma eu hystyried yn cynnwys ym mha fodd y cafodd dylunio cynhwysol ei lwyr integreiddio yn y broses ddylunio.
- **Cyfleu ac egluro syniadau dylunio –** disgwylir i'r dylunwyr fod wedi treulio amser hir yn ystyried cynnig, ond y DDM fydd y cyfle cyntaf i bobl eraill gael cyfle i ddeall y dybiaeth sylfaenol. O ganlyniad, mae'n arf defnyddiol i egluro pam y cafodd rhai penderfyniadau eu gwneud a'r syniadau creadigol y tu ôl i'r dyluniad.
- **Gwella trafodaethau cyn ymgeisio –** gall DDM drafft, wedi'i gyflwyno i'r ACLL o flaen llaw, helpu trafodaethau cyn ymgeisio gan ei fod yn darparu cyflwyniad da am y cynigion i'r swyddogion cynllunio. Efallai fod y dyluniad yn ei ddyddiau cynnar ond bydd dangos y briff a dadansoddiad o'r safle/cyd-destun yn dangos dealltwriaeth o'r safle.
- **Cynorthwyo gydag ymgynghoriad cyn ymgeisio –** bydd y ddogfen yn help i egluro'r cynigion wrth ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.
- **Cynorthwyo'r paratoadau ar gyfer Adolygu Dyluniadau gyda Chomisiwn Dylunio Cymru –** mae paratoi DDM drafft ar gyfer Adolygu Dyluniadau yn help i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen mewn ffurf gryno. Yn ystod y cyfnod cynnar cyn ymgeisio y ceir y gwerth gorau o'r broses Adolygu Dyluniadau.

- **Cyfleu'r modd y mae'r cynnig yn cyfrannu i gynllun creu lleoedd** – mae'r DDM yn cynnig y cyfle i nodi'r modd y byddai'r cynnig o fantais i'r bobl a fydd yn defnyddio ac yn rhyngweithio gyda'r datblygiad fel rhan o'r broses o greu lle cynaliadwy.

- **Cyflymu'r broses benderfynu** – mae angen DDM sy'n cydymffurfio er mwyn i'r cais cynllunio gael ei ddilysu, ond yn ychwanegol, gall DDM da fod o help yn y cyfnod cyn ymgeisio a gwneud penderfyniad fynd rhagddo'n rhwydd wrth iddo gydgasglu'r wybodaeth allweddol a chynnig atebion i lawer o'r cwestiynau dylunio a allai'r ACLL eu gofyn.

4

Ysgol Craig y Deryn, Eryri
CCleient: Cyngor Sir Gwynedd
Pensaer: Pensaernïaeth Darnton B3

4

Peryglon ac arferion da

Mae'r profiad a gafwyd ers cyflwyno DDM yn 2009 wedi bod o help i ddeall beth sy'n gwneud DDM da a defnyddiol. Mae'r canlynol yn grynodeb o bwyntiau allweddol i'w gwylio wrth baratoi DDM.

Peidiwch â gwneud y canlynol

Meddwl	am stori'r dylunio'n unig wrth ysgrifennu'r ddogfen ar y diwedd.
Paratoi'r	ddogfen heb fewnbwn gan y tîm dylunio.
Copïo	polisi cynllunio gair-am-air.
Ystyried	mynediad ar wahân neu fel ôl-ystyriaeth.

Gwnewch y canlynol

Dechrau	crynhoi'r ddogfen yn fuan a chynnwys y daith. Dylai'r DDM egluro pam eich bod wedi gwneud y penderfyniadau dylunio a wnaethoch.
Sicrhau	bod y tîm dylunio'n llwyr ynghlwm â pharatoi'r ddogfen i egluro'u proses ddylunio.
Dangoswch	eich bod yn gyfarwydd â pholisïau a chanllawiau perthnasol, megis y Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG), briff datblygu neu god dylunio, darparwch esboniad cryno o'r modd yr ydych wedi ymateb iddynt. Byddwch yn gryno.
Ystyried	pob agwedd o ddylunio, yn cynnwys hygyrchedd, mewn dull cyfannol. Mae dylunio cynhwysol yn ystyried anghenion pob defnyddiwr beth bynnag fo'u hoedran, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, grŵp cymdeithasol etc. a dylent gael eu hintegreiddio yn y broses ddylunio.

Peidiwch â gwneud y canlynol

Neidio'n	syth ar yr ateb.
Defnyddio	llawer o eiriau a disgrifiadau hirfaith pan na fydd angen.
Defnyddio	testun generig a allai fod yn gymwys ar gyfer unrhyw ddatblygiad.
Cofnodi	pop pwnc yn faith os nad yw'n berthnasol.
Defnyddio	jargon neu iaith dechnegol os nad oes angen.

Gwnewch y canlynol

Egluro	sut y gwnaethoch ddeall ac ymchwilio i her y dylunio a phrofi'r ymatebion iddi.
Defnyddio	cynlluniau/diagramau/ ffotograffau pan fo hynny'n bosibl i egluro syniadau a disgrifio'r safle a'r cyd-destun. Cadwch y ddogfen yn gryno.
Bod	yn benodol am y cynnig o dan sylw.
Amrywio	hyd a lefel y manylion yn ôl y math o gais a'i natur. Gall y DDM gyfeirio at astudiaethau mwy manwl a gynhaliwyd yn ystod cyfnod datblygu'r cais ond nid oes raid iddo gynnwys yr holl wybodaeth.
Ystyried	anghenion amryfal gynulleidfaoedd a sicrhau bod y ddogfen yn hawdd ei darllen a'i deall.

5

Pentref Gardd Loftus, Casnewydd
Cleient: Grŵp Pobl
Dylunio'r Uwchgynllun: Alan Baxter

5

Strwythur Datganiad Dylunio a Mynediad a chyfleu'r broses ddylunio

Dylai DDM arwain y darllenydd yn eglur ac yn rhesymegol drwy'r broses ddylunio fel bod modd deall y sail resymegol sydd wrth wraidd y cynnig terfynol.

Bydd y cynnwys yn amrywio yn ôl y prosiect. Serch hynny, mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi, fel gofyniad sylfaenol, fod rhaid i'r DDM egluro'r canlynol:

- yr egwyddorion a'r cysyniadau dylunio a weithredwyd yn achos y datblygiad; a'r
- modd y cafodd ystyriaethau ynglŷn â mynediad i'r datblygiad eu trin.

Yn y cyd-destun hwn mae mynediad yn cyfeirio'n benodol at rwyddineb mynediad i bawb. Mae'r strwythur awgrymedig sy'n dilyn yn cynnig fframwaith a fydd yn help i sicrhau y bydd y prif bwyntiau'n cael sylw ac yn cael eu cyfleu'n eglur. Mae'n bosibl y bydd trin y ddogfen mewn ffyrdd amgen yn addas ynghyd â chynnig gwybodaeth ychwanegol, ond yn y mwyafrif o achosion dylai'r cynnwys hwn fod yn y DDM.

Mae'r strwythur awgrymedig at ei gilydd yn dilyn camau'r broses ddylunio felly, wrth ymgymryd â phob cam yn y broses, bydd modd datblygu cynnwys y ddogfen yn hytrach na pharatoi'r ddogfen gyfan ar y diwedd.

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
    i. Nodwedd
    ii. Mynediad
    iii. Symudiad
    iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
    v. Diogelwch Cymunedol
    vi. Ymateb i bolisi cynllunio

Bydd ystyried sut i gyfleu'r cynnig yn y DDM ar ddechrau'r broses yn help i ddatblygu cynnwys y ddogfen ar hyd y daith. Gellir cyfleu sawl elfen o'r DDM yn effeithiol drwy ddefnyddio cynlluniau, diagramau a delweddau, ac mae hyn yn cael ei annog gan ei fod hefyd yn lleihau hyd y ddogfen.

Cynigir canllawiau pellach ar gyfer pob un o'r adrannau a awgrymir, ynghyd â rhannau o DDM sy'n arddangos dull cyfleu effeithiol am y pwnc. Mae'n bwysig nodi bod yr enghreifftiau hyn wedi cael eu dewis i egluro un agwedd benodol o'r DDM ac na ddylid eu hystyried yn gymeradwyaeth o'r ddogfen gyfan na'r cynllun arfaethedig.

Darllen ychwanegol:

– Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

a. Crynodeb o'r cynnig

Cyflwynwch y darllenydd i'r prosiect drwy ddarparu crynodeb byr o'r cynnig. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth sylfaenol yn cynnwys lleoliad y safle, y defnydd arfaethedig, cwantwm y datblygiad a'r math o gais sy'n dod gyda'r DDM h.y. amlinellol, llawn, caniatâd adeilad rhestredig.

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

Enghreifftiau:

> **Datblygiad Preswyl, Porth Teigr, Caerdydd, t7.**
Ynghyd â chynllun trosolwg mae rhestr o unedau, dwysedd a pharcio.

> **Addysg, Ysgol Gynradd Gymunedol Trimsaran, Sir Gaerfyrddin, t6 & t25.**
Mae crynodeb y cynigion yn nodi beth sydd ynghlwm yn y datblygiad ac mae'r diagram ar dudalen 25 yn cynnig trosolwg defnyddiol o osodiad y safle.



Mae'r cynllun cryno'n dangos y cynigion ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Trimsaran yn eu cyd-destun.
(Delwedd trwy garedigrwydd Architype / The Urbanists)

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

b. Y briff a'r weledigaeth

Mae nodi'r briff ar gyfer y prosiect yn cynnig y man cychwyn ar gyfer yr ymateb dylunio. Gallai gynnwys braslun o nifer yr unedau, arwynebedd lloriau, mathau o adeiladau a'u defnydd, cyfagosrwydd a meini prawf perfformiad. Mewn rhai achosion bydd y briff wedi newid a datblygu wrth i'r cynigion ddatblygu a dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y ddogfen.

Yn ychwanegol at y briff ymarferol, dylai'r DDM ddatgan y weledigaeth ar gyfer y datblygiad. Mae'r weledigaeth yn cynnwys esboniad am y math le y dylai'r datblygiad ei greu. Gall cleient gael gweledigaeth mewn golwg yn gynnar neu gall y weledigaeth ddeillio o'r tîm dylunio'n gweithio gyda'r cleient a deall y safle a'i gyd-destun.

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
   i. Nodwedd
   ii. Mynediad
   iii. Symudiad
   iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
   v. Diogelwch Cymunedol
   vi. Ymateb i bolisi cynllunio

Enghreifftiau:

> **Addysg, Coleg Caerdydd a'r Fro, Caerdydd, t20-21.**
Mae briff y datblygiad yn nodi'r anghenion ar gyfer yr adeilad yn ogystal ag amcanion a dyheadau'r cleient.

> **Datblygiad Preswyl, Pentref Gardd Loftus, Casnewydd, t24-25.**
Mae'r weledigaeth o greu pentref gardd wedi'i nodi ac mae'n rhoi gwybodaeth am y meddylfryd o'r modd y dylai'r datblygiad edrych, deimlo a gweithredu.

> **Datblygiad defnydd cymysg, Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin, t20.**
Mae un dudalen o destun yn nodi'r briff a gweledigaeth y cleient o'r datblygiad.

> **Maggie's, De-ddwyrain Cymru, yn Ysbyty Felindre, Caerdydd, t5.**
Mae'r briff yn nodi'r llety sydd ei angen yn ogystal ag ethos yr adeilad.

Mae'r weledigaeth am Bentref Gardd Pirelli/Loftus yn nodi ym mha fodd y dylai'r datblygiad arfaethedig edrych, deimlo a gweithredu mewn diagram syml, cryno. (Delwedd trwy garedigrwydd Alan Baxter)

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

c. Dadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun

Dylai'r rhan hon o'r ddogfen ymdrin â'r hyn sydd eisoes yn bodoli yn hytrach na'r hyn sydd yn yr arfaeth. Mae dadansoddiad da o'r safle a'r cyd-destun yn gam hollbwysig os am gael dylunio da.

Mae canllawiau llawn am y broses i'w gweld yn *Canllawiau ar Ddadansoddi Safle a Chyd-destun: Pennu gwerth safle* (2016) sy'n ymdrin â dadansoddi, dehongli a chyflwyno. Mae'r ddogfen yn nodi ystod o bynciau yn cynnwys tirwedd, ecoleg, ffurf adeiladu, treftadaeth, symudiad, seilwaith, diwylliant a chymuned y dylid eu hystyried os yn berthnasol.

Dylai'r rhai sy'n darllen y DDM allu adnabod y lleoliad a natur y safle a bod yn hyderus fod yr ymgeisydd/tîm dylunio wedi llwyr ddeall ac ystyried rhinweddau'r safle a'r cyd-destun. Bydd defnyddio cynlluniau anodedig a ffotograffau yn help i fyrhau disgrifiadau hirfaith. Mae cynlluniau cryno yn help i amlygu'r cyfleoedd allweddol a'r cyfyngiadau. Bydd treulio amser yn crisialu a chyfleu'r wybodaeth yn y fformat hwn yn dangos dealltwriaeth o'r materion pwysicaf.

Er y dylid cyfeirio at astudiaethau technegol, byddai'n well darparu crynodeb o'r canfyddiadau yn hytrach nag ailadrodd darnau maith o ddogfennau eraill.

Yn y cyfnod hwn dylid cyfeirio at bolisi cynllunio a chanllawiau perthnasol a fydd yn dylanwadu ar y dyluniad ond ni ddylid eu copïo i mewn i'r ddogfen. Mae adran gynigion y ddogfen yn cynnig cyfle i ddangos ym mha fodd y mae'r datblygiad arfaethedig wedi ymateb i'r polisi a'r canllawiau a enwyd. Y pethau allweddol i'w hystyried yw dynodiadau neu bolisïau penodol i'r safle yn y Cynllun Datblygu, canllawiau lleol penodol i'r dyluniad, briffiau datblygu, uwchgynlluniau neu godau dylunio. Dylid cyfeirio hefyd at hanes cynllunio ar y safle os yn berthnasol.

Dylai ymgynghori cynnar gyda'r gymuned leol neu randdeiliaid penodol a grwpiau buddiant fod yn rhan o'r dadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun yn y cyfnod cynnar. Serch hynny, gallai fod yn fwy priodol i gofnodi casgliadau'r ymgynghoriad a'r dylanwad ar y cynigion yn adran datblygu dylunio'r ddogfen.

Darllen ychwanegol:

- TAN 12: Dylunio
- Canllawiau ar Ddadansoddi Safle a Chyd-destun: Pennu gwerth safle
- Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy
- Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru, Cadw (i'w gyhoeddi ganol 2017)

a. Crynodeb o'r cynnig

b. Y Briff a'r Weledigaeth

c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun

d. Dehongliad

e. Datblygu Dyluniad

f. Y Cynnig

i. Nodwedd

ii. Mynediad

iii. Symudiad

iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol

v. Diogelwch Cymunedol

vi. Ymateb i bolisi cynllunio

Enghreifftiau:

> **Addysg, Coleg Caerdydd a'r Fro, Caerdydd, t12.**
Defnyddir diagramau i gyfleu gwybodaeth allweddol fel rhan o ddadansoddiad o'r safle a'i gyd-destun.

> **Safle Preswyl Strategol, Fferm Pantlasau, t8, 12-15.**
Mae cynllun cryno yn amlygu'r wybodaeth allweddol am ecoleg a thopograffi'r safle a gyda'r cynllun mae dehongliad o'r pwyntiau hyn a'r modd yr ymdrinnir â hwy yn natblygiad y cynigion ar y safle.

> **Datblygiad Preswyl, Cefn yr Hendy, Caerdydd, t43.**
Mae cynllun yn nodi crynodeb o'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau allweddol.



Cynllun dadansoddiad safle cryno ar gyfer safle Cefn yr Hendy yng Nghaerdydd.
(Delwedd trwy garedigrwydd The Urbanists)

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

d. Dehongliad

Fel yr amlygir yn y Canllawiau ar Ddadansoddi Safle a Chyd-destun, mae'n bwysig nad proses sy'n cael ei gweithredu ac yna'n cael ei hanghofio yw dadansoddi safle a chyd-destun. Rhaid iddi gael ei dehongli a'i gweithredu yng nghyd-destun y briff a'r weledigaeth ar gyfer y safle.

Gall y dehongliad hwn gael ei gyflwyno ar ffurf cynllun fframwaith ar gyfer y safle, casgliad o egwyddorion, amcanion neu ddiagram o'r cysyniad. Mae'n cyfuno'r holl wybodaeth a syniadau yn un ffurf gydlynol a dylid cyfeirio ato yn ystod y broses ddylunio ac wrth ystyried y cais cynllunio i sicrhau bod y cynigion yn gwireddu'r amcanion ac yn cyflawni'r cysyniad dylunio.

Darllen ychwanegol:

– Canllawiau ar Ddadansoddi Safle a Chyd-destun: Pennu gwerth safle
– Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy
– Urban Design Compendium

a. Crynodeb o'r cynnig

b. Y Briff a'r Weledigaeth

c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun

d. Dehongliad

e. Datblygu Dyluniad

f. Y Cynnig

i. Nodwedd

ii. Mynediad

iii. Symudiad

iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol

v. Diogelwch Cymunedol

vi. Ymateb i bolisi cynllunio

Enghreifftiau:

> **Datblygiad Preswyl, Parc Llandaf, Caerdydd, t30.**
Mae'r cynllun cysyniad bras hwn yn cyfleu'r prif syniadau ar gyfer y safle.

> **Datblygiad Preswyl, Cefn yr Hendy, Caerdydd, t46.**
Mae'r DDM yn cynnwys fframwaith cysyniadol sy'n nodi'r cyfleoedd allweddol yn y dadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun ynghyd â'r weledigaeth am y safle ac mae'n darparu diagram defnyddiol y gellir cyfeirio'n ôl ato wrth i'r cynigion ddatblygu.

> **Datblygiad Preswyl, Pentref Gardd Loftus, Casnewydd, t26-28.**
Nodir casgliad o egwyddorion ar gyfer y datblygiad wedi'i seilio ar weledigaeth y datblygiad ac mae'n cael ei ddarlunio gan ddefnyddio cynlluniau a diagramau.

> **Datblygiad defnydd cymysg, Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin, t21-24.**
Mae'r dadansoddiad o'r safle, y briff a'r weledigaeth wedi'u cyfuno mewn cysyniad ar gyfer y datblygiad sy'n dechrau ystyried ym mha fodd y bydd y syniadau yn cael eu dehongli'n ofodol o fewn yr adeilad.

> **Datblygiad Preswyl, Llanwern, Glas Llyn, Casnewydd, t22-23.**
Mae'r cynllun fframwaith datblygu yn grynodeb eglur iawn o'r elfennau allweddol a fydd yn strwythuro'r datblygiad mewn ymateb i'r dadansoddiad o'r safle a'r weledigaeth.

Mae'r cynlluniau fframwaith cysyniad a datblygu ar gyfer y datblygiad preswyl yn Llanwern yn dangos y modd y cafodd y dadansoddiad ei ddehongli a'i ddatblygu er mwyn rhoi strwythur i'r safle. (Delwedd trwy garedigrwydd Roberts Limbrick)

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

e. Datblygu dyluniad

Gall crynodeb o'r modd y datblygodd y dyluniad ei gofnodi gan ddefnyddio lluniau, brasluniau a diagramau. Dylid amlygu'r dylanwadau allweddol ar ddatblygiad y dyluniad megis profion perfformiad amgylcheddol, ymgynghori, Adolygiad Dylunio Comisiwn Dylunio Cymru (CDC), modelu, profi a chyfarfodydd cyn ymgeisio.

Mae dylunio yn broses ailadroddol ac mae'n debygol y bydd cynnig wedi'i roi ar sawl opsiwn neu ddull ac yna'u profi a'u diwygio wrth ddatblygu'r dyluniad. Mae'r adran hon yn cynnig y cyfle i egluro'r ystyriaethau hyn a pham y gwnaethpwyd penderfyniadau dylunio.

Dylai'r DDM gynnwys crynodeb o unrhyw ymgynghoriad cyn ymgeisio a gafwyd gyda'r ACLI a'r modd y gwnaeth hyn ddylanwadu ar y cynigion.

Mae ymgynghori cyn ymgeisio gyda'r gymuned leol, ymgyngoreion statudol ac anstatudol a rhanddeiliaid yn ofyniad ar gyfer cynlluniau sy'n cynnwys datblygiad mawr. Mae hyn yn cynnig cyfle i ychwanegu gwerth at brosiect drwy weithio'n agos gyda'r rhai sy'n adnabod yr ardal orau ac efallai a fydd yn y pendraw yn cymryd perchnogaeth o'r prosiect ar iddo gael ei gwblhau. Bydd dulliau creadigol o gydweithio yn help i wneud yn fawr o'r broses hon. Dylid ystyried y modd y bydd gwybodaeth yn cael ei chyflwyno er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch i'r gynulleidfa ymgynghorol. Dylai unrhyw adborth a mewnbwn a gesglir yn sgil y broses hon a'r modd y cafodd y cynigion eu newid mewn ymateb gael eu cynnwys yn yr adran hon o'r DDM.

Darllen ychwanegol:

– Gweithdrefnau Rheoli Datblygu Newydd, Atodiad 1 – Canllawiau Ymgynghori Cyn Ymgeisio, Llywodraeth Cymru

a. Crynodeb o'r cynnig

b. Y Briff a'r Weledigaeth

c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun

d. Dehongliad

e. Datblygu Dyluniad

f. Y Cynnig
   i. Nodwedd
   ii. Mynediad
   iii. Symudiad
   iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
   v. Diogelwch Cymunedol
   vi. Ymateb i bolisi cynllunio

Enghreifftiau:

> **Llety Myfyrwyr, Stryd y Bont, Caerdydd, t27-37.**
Mae'r DDM yn cynnig naratif a diagramau i ddangos y modd y mae'r dyluniad wedi datblygu yn sgil ymgynghori gyda'r ACLI a CDC.

> **Datblygiad Preswyl, Caeau Bryngwyn, t23-26.**
Mae cyfres o ddiagramau yn dangos y modd y cafodd y gosodiad ei ddatblygu yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r safle a ffactorau sbarduno.

> **Datblygiad Preswyl, safle Gorsaf Heddlu Port Talbot, t16-18.**
Mae cynlluniau, delweddau a modelau o'r siâp a'r ffurf yn dangos y modd y cafodd opsiynau amrywiol ar gyfer y safle eu hystyried a'u hasesu.

> **Datblygiad Preswyl, Willowbrook West, Caerdydd, t46-53.**
Mae'r DDM yn cofnodi adborth gan ystod o ymgyngoreion a'r modd y cafodd y cynigion eu diwygio mewn ymateb.

> **Datblygiad Preswyl, Pentref Gardd Loftus, Casnewydd, t29-31.**
Mae'r DDM yn cofnodi'r modd y mae gosodiad y safle wedi datblygu wrth ei ailadrodd a'r rhesymau am y newidiadau a wnaethpwyd.



Mae'r datblygiad dylunio o gynigion ar gyfer llety myfyrwyr yn Stryd y Bont, Caerdydd yn cael ei ddarlunio yn y DDM er mwyn cynnig crynodeb defnyddiol

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

f. Y cynnig

Wedi amlinellu'r cefndir a dweud hanes datblygiad y cynnig , dylai'r adran hon o'r ddogfen egluro'r hyn sy'n cael ei gynnig a'r modd y mae'n bodloni amcanion dylunio da fel y'u nodir yn PCC a TAN 12 yn ogystal â pholisïau yn y Cynlluniau Datblygu a chanllawiau dylunio lleol.

Trosolwg

Yn y lle cyntaf dylai'r adran hon ddarparu trosolwg o'r hyn sy'n cael ei gynnig, a hynny yng nghyd-destun y safle. Bydd cynlluniau, golygon, trychiadau, persbectifau ac elfennau gweledol eraill yn darlunio'r cynigion. Mae'n rhaid i'r rhain fod yn unol â'r cynlluniau a gyflwynir fel rhan o'r cais cynllunio. Nid oes angen dyblygu unrhyw wybodaeth a ddarperir yn yr adrannau sy'n dilyn a fydd yn cynnig mwy o fanylion.

Dylai DDM sy'n mynd gyda chais amlinellol esbonio'n eglur a chyfiawnhau'r amcanion a ddefnyddir i wneud y cynigion manwl yn hysbys, gan arddangos dealltwriaeth o'r hyn sy'n briodol ac yn ddichonadwy ar gyfer y safle yn ei gyd-destun, hyd yn oed os yw'r holl faterion wedi'u cadw yn ôl.

Ar gyfer datblygiadau preswyl gellir cyfeirio at *Building for Life 12 Wales* i egluro'r modd yr aethpwyd i'r afael â'r meini prawf.

Amcanion dylunio da

Dylai disgrifiad ysgrifenedig byr neu bwyntiau bwled ynghyd â lluniau/delweddau perthnasol fod yn ddigonol i egluro'r modd y mae'r cynnig yn ymateb i'r pum amcan a nodir yn PCC a TAN 12. Dylai'r ymateb i bob amcan fod yn eglur ac yn hawdd eu canfod yn y ddogfen, ond mewn rhai achosion mae'n bosibl mai ychydig yn unig fydd i'w ddweud am rai agweddau, ac os felly bydd yr adrannau hyn yn y ddogfen yn fyr.

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

i. Nodwedd

Ym mha fodd y mae'r cynnig yn cynnal neu'n gwella'r nodweddion lleol ac yn hybu datblygiad chwaethus, perthynas lwyddiannus rhwng mannau agored cyhoeddus a rhai preifat, ansawdd, dewis ac amrywiaeth a dylunio arloesol?

Gall nodweddion datblygiad gael eu cynhyrchu drwy ystod o agweddau y dylid eu hegluro yn yr adran hon. Gallant gynnwys y canlynol:

Creu lleoedd

- Ym mha fodd y mae elfennau yn y cynnig yn cyfuno i greu naws gref am le
- Y cyfraniad fydd y cynnig yn ei wneud i ansawdd bywyd y rhai fydd yn rhyngweithio gyda'r datblygiad

Maint a dwysedd

- Nifer yr unedau neu arwynebedd llawr
- Ym mha fodd y byddai maint y datblygiad yn gynaliadwy ac yn gynnig priodol ar gyfer y safle yn y tymor byr a'r tymor hir
- Cyfiawnhad dros ddwysedd y datblygiad arfaethedig
- Ym mha fodd y mae'r dwyseddau arfaethedig yn berthnasol i ddwyseddau cyfagos a seilwaith

Strydoedd

- Hierarchaeth strydoedd arfaethedig a'r modd y mae strydoedd gwahanol wedi'u dylunio i atgyfnerthu'r hierarchaeth hon
- Ym mha fodd y mae'r datblygiad arfaethedig yn mynd i'r afael ag ansawdd strydoedd presennol neu rai arfaethedig ac yn ei atgyfnerthu

Mannau agored a thir y cyhoedd

- Lleoliad mannau agored cyhoeddus pendant yn yr arfaeth
- Y cydbwysedd rhwng tirwedd galed a thirwedd feddal
- Ym mha fodd y mae tir y cyhoedd wedi'i ddylunio i hyrwyddo cysylltedd diogel a darparu fframwaith cadarn i'r dirwedd

Cymysgedd o ddefnydd a deiliadaeth

- Yr amrywiaeth o ddefnydd a deiliadaeth arfaethedig ar y safle a'r modd y bydd hyn yn cynnal gwasanaethau angenrheidiol, cyfleusterau a thrafnidiaeth gyhoeddus
- Ym mha fodd y dylai'r defnydd arfaethedig gyfrannu i ddelwedd a nodweddion y datblygiad a'r ardal

Graddfa

- Cyfleu uchder, lled a hyd adeiladau, a maint y strydoedd a'r mannau agored cyhoeddus mewn perthynas â'r adeiladau hynny
- Ym mha fodd oedd y cynnig wedi ymateb i nodweddion a graddfa bresennol yr ardal leol

a. Crynodeb o'r cynnig

b. Y Briff a'r Weledigaeth

c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun

d. Dehongliad

e. Datblygu Dyluniad

f. Y Cynnig

i. Nodwedd

ii. Mynediad

iii. Symudiad

iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol

v. Diogelwch Cymunedol

vi. Ymateb i bolisi cynllunio

Gosodiad

– Egluro'r modd y byddai'r gosodiad arfaethedig yn ymateb i nodweddion y datblygiad a'i gyd-destun (dylid ymdrin ag ystyriaethau gosodiad eraill yn adrannau Diogelwch Cymunedol a Chynaliadwyedd Amgylcheddol y ddogfen)

Treftadaeth

– Ym mha fodd y y cafodd gwerth treftadaeth y safle a/neu ei gyd-destun ei ddehongli a'i integreiddio yn y cynnig

Dylunio Manwl

– Manylion am y defnyddiau a'u perthynas â'r cyd-destun a'r weledigaeth

– Manylu pan fo hynny'n bwysig

Darllen ychwanegol:

– TAN 12: Dylunio

– Urban Design Compendium

– Llawlyfr Strydoedd a Llawlyfr Strydoedd 2

– Building for Life 12 Wales

– A Model Design Guide for Wales, Residential Development

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

Enghreifftiau:

> **Addysg, Coleg Caerdydd a'r Fro, Caerdydd, t28-30.**
Cyfres o gynlluniau, brasluniau a diagramau sy'n help i egluro gosodiad yr adeilad arfaethedig ac sy'n rhoi syniad o ansawdd y mannau agored a grëir.

> **Addysg, Coleg Caerdydd a'r Fro, Caerdydd, t35-41.**
Mae cysyniad y dirwedd, mynd i'r afael â'r dylunio, ac egwyddorion y datblygiad arfaethedig yn cael eu cyflwyno mewn cyfres o ddiagramau yn arwain at yr uwchgynllun tirwedd arfaethedig. Gellir defnyddio'r egwyddorion tirwedd i wirio a yw'r uwchgynllun tirwedd yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

> **Safle Preswyl Strategol, Caeau Bryngwyn, Pontybrenin, t31.**
Mae'r DDM yn dangos yn glir ar gynllun ymhle y bydd mannau agored nodedig yn cael eu creu er mwyn darparu lleoliad ar gyfer y datblygiad preswyl.

> **Datblygiad Defnydd Cymysg, yr hen Swyddfa Heddlu Port Talbot, t22.**
Defnyddir delweddau wedi'u cynhyrchu â chyfrifiadur (CGIs) o safbwyntiau pwysig i ddangos graddfa'r datblygiad arfaethedig yng nghyd-destun adeiladau a mannau agored yn y cyffiniau.

> **Datblygiad Preswyl, Porth Teigr, Caerdydd, t46-48.**
Mae'r adran hon o'r DDM ar gydrannau ar gyfer tai yn dangos bod anghenion preswylwyr wedi'u hystyried a'r modd y byddant yn cael eu hymgorffori yng nghyd-destun y datblygiad hwn. Mae'r defnydd o ddiagramau yn help i egluro i'r darllenydd y modd yr ymdrinnir â'r mater.

> **Datblygiad Preswyl, Pentref Gardd Loftus, Casnewydd, t54-57.**
Mae'r DDM yn nodi hierarchaeth y strydoedd yn eglur a'r modd y bydd dyluniad yr amrywiol strydoedd yn ymateb i'r hierarchaeth hon i greu nodweddion gwahanol.

> **Datblygiad Defnydd Cymysg, Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin, t34-36.**
Mae'r adran hon yn y ddogfen am edrychiad a defnyddiau yn cynnwys elfennau gweladwy, disgrifiad o'r hyn sydd yn yr arfaeth ac esboniad o'r seiliau rhesymegol y tu ôl i'r penderfyniadau.

> **Datblygiad Preswyl, Parc Llandaf, Caerdydd, t44-45.**
Mae brasluniau a thestun yn archwilio nodweddion a natur y strydoedd a'r mannau agored arfaethedig.

a. Crynodeb o'r cynnig

b. Y Briff a'r Weledigaeth

c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun

d. Dehongliad

e. Datblygu Dyluniad

f. Y Cynnig

i. Nodwedd

ii. Mynediad

iii. Symudiad

iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol

v. Diogelwch Cymunedol

vi. Ymateb i bolisi cynllunio

Enghreifftiau pellach:

> **Diwylliannol, Pencadlys BBC Cymru, Sgwâr Canolog, Caerdydd, t98-104.**
Defnyddir cynlluniau, trychiadau a delweddau i egluro'r driniaeth ffasâd amrywiol arfaethedig ar gyfer pob golwg a'r modd y bydd y cladin yn amrywio fel ymateb i hyn.

> **Preswyl, Iard Llongau Genedlaethol, Cas-gwent, t48-59.**
Darperir cynlluniau, golygon, trychiadau a brasluniau i egluro nodweddion amrywiol strydoedd a mannau agored.

Darperir golygon ac elfennau gweladwy yn y DDM ynghyd â disgrifiad a seiliau rhesymegol am edrychiad Canolfan S4C Yr Egin arfaethedig. (Delwedd trwy garedigrwydd Rural Office for Architecture)

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

ii. Mynediad

Ym mha fodd mae'r cynigion yn sicrhau mynediad rhwydd i bawb i'r datblygiad ac i bob elfen o fewn y safle?

Mae dylunio da yn ddylunio cynhwysol, a dylai dylunio cynhwysol fod yn rhan annatod o'r broses ddylunio. Mae Atodiad 2 yn nodi manylion pellach sy'n cael eu cymeradwyo gan CDC a Llywodraeth Cymru. Er bod yr adran hon yn mynd i'r afael â mynediad yn benodol, rhaid arddangos bod dylunio cynhwysol wedi'i gynnwys drwy'r holl broses ddylunio a'i fod yn cael ei adlewyrchu yn y lluniau a gyflwynir. Gall gwybodaeth yn adran hon y ddogfen gynnwys y canlynol:

- Y modd aethpwyd i'r afael â dylunio cynhwysol yn cynnwys y modd y mae trefniadau mynediad yn cynnig darpariaeth resymol i sicrhau bod gan bob defnyddiwr fynediad cyfartal a chyfleus, i mewn i'r safle o'i ffiniau i'r holl adeiladau newydd neu estynedig ac o fewn y safle fel ei gilydd.
- Y modd y mae cael mynediad i'r datblygiad, yn cynnwys darluniau eglurhaol o'r modd y mae cael mynediad i'r safle, llwybrau cylchredeg oddi mewn a rhwng adeiladau yn cynnwys graddiannau, y defnyddiau a ddefnyddiwyd i'w ffurfio, a lleoli adeiladau oll wedi cael eu hystyried.
- Os ydych yn ystyried nad yw darpariaeth o'r fath yn bosibl, dylid cynnig rhesymau yn y DDM i gefnogi'r achos. Mewn achosion o'r fath, eglurwch ym mha fodd y byddwch yn dal i fynd i'r afael â darpar egwyddorion dylunio cynhwysol drwy ddulliau eraill megis gweithdrefnau rheoli.
- Egluro neu groesgyfeirio deunydd atodol sy'n berthnasol i ddyluniad mannau parcio, gosodiadau parcio a mannau gollwng teithwyr.
- Y modd y cafodd unrhyw bolisïau yn ymwneud â mynediad yn y cynllun datblygu statudol eu pwyso a mesur.
- Y modd y bydd nodweddion a fydd yn sicrhau mynediad pobl i'r datblygiad yn cael eu cynnal.
- Y modd y bu grwpiau mynediad, swyddogion mynediad awdurdodau lleol neu ymgynghorwyr yn ymgysylltu â datblygiad y dyluniad. A oedd gwybodaeth ar gael mewn fformatau gwahanol i sicrhau bod y broses ymrwymo yn gynhwysol, er enghraifft cynlluniau cyffyrddadwy.

Darllen ychwanegol:

- Tan 12: Dylunio
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Inclusive Design in the Built Environment, Training Handbook (yn cynnwys llawer o gyfeiriadau darllen pellach)
- Grant, A (2012) Designing for Accessibility, London: Centre for Accessible Environment/s RIBA Publishing

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

Enghraifft:

> **Diwylliannol, Pencadlys BBC Cymru, Sgwâr Canolog, Caerdydd, t122-125.**
Rhoddir gwybodaeth am fynediad i mewn i'r adeilad o ddulliau teithio amrywiol yn ogystal â chylchrediad o fewn yr adeilad. Mae cynlluniau a thestun yn cynnig manylion am ddarpariaethau parcio a chyfleusterau.

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

iii. Symudiad

Ym mha fodd y mae'r cynnig yn hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy?

Dylai'r adran hon fynd i'r afael â'r modd y bydd pobl yn mynd i'r safle ac oddi yno yn ogystal â symudiad o fewn y safle. Dylai egwyddorion datblygu cynaliadwy sy'n hyrwyddo cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, gan leihau'r ddibyniaeth ar geir preifat gael eu hadlewyrchu yn y cynigion. Gallai'r wybodaeth gynnwys y canlynol:

- Y modd y mae'r safle yn hwyluso cysylltedd da, mynediad i gyfleusterau a hyrwyddo cerdded a beicio.
- Y modd y cafodd dulliau teithio cynaliadwy a llesol eu hintegreiddio i hyrwyddo cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.
- Y modd y cafodd cysylltiadau ffisegol diogel â'r ardal gyfagos eu datblygu a'u cymhwyso.
- Y modd yr aethpwyd i'r afael â pharcio yn cynnwys y modd y cafodd cymysgedd briodol o ddarpariaethau parcio sydd o fewn golwg eiddo cyfagos eu hintegreiddio.
- Croesgyfeirio at wybodaeth allweddol sy'n ymwneud â TAN 18 ac asesiadau trafnidiaeth yn ôl y gofyn.
- Yr ymateb i'r egwyddorion a nodir yn *Llawlyfr Strydoedd a Llawlyfr Strydoedd 2*.
- Ar gyfer ceisiadau amlinellol pan fydd mater 'mynediad' yn cael ei gadw yn ôl (h.y. cyffyrdd newydd a mynedfeydd i gerbydau), dylai'r DDM gynnwys pwynt(iau) mynediad dynodol i'r safle.

Darllen ychwanegol:

- Tan 12: Dylunio
- Llawlyfr Strydoedd a Llawlyfr Strydoedd 2
- Building for Life 12 Wales
- Canllawiau Dylunio ar gyfer Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

a. Crynodeb o'r cynnig

b. Y Briff a'r Weledigaeth

c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun

d. Dehongliad

e. Datblygu Dyluniad

f. Y Cynnig

i. Nodwedd

ii. Mynediad

iii. Symudiad

iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol

v. Diogelwch Cymunedol

vi. Ymateb i bolisi cynllunio

Enghreifftiau:

> **Datblygiad Preswyl, Porth Teigr, Caerdydd, t28-29.**
Defnyddir dau gynllun i ddangos ym mha fodd y mae mynediad i'r safle a symudiad o gwmpas y safle wedi'i ymgorffori yn y gosodiad ar gyfer cerddwyr, beicwyr a cheir yn ogystal â cherbydau sbwriel, cerbydau dodrefn, offer tân a'r Awdurdod Harbwr.

> **Canolfan Ymwelwyr, Coed y Brenin, Parc Cenedlaethol Eryri, t13.**
Mae'r diagram defnyddiol hwn yn dangos symudiadau amrywiol cerbydau, beicwyr a cherddwyr drwy'r safle.

> **Canolfan Ymwelwyr a Chanolfan Chwaraeon Dŵr, Cronfa Llandegfedd, Pont-y-pŵl, t8.**
Mae cynllun yn dangos y modd aethpwyd i'r afael â llwybrau i'r cyfleuster ac i fannau parcio.

Mae'r cynllun hwn yn cynnig crynodeb o'r cylchrediad arfaethedig yn cynnwys safle parcio a storfa feiciau yn natblygiad preswyl arfaethedig Porth Teigr. (Delwedd trwy garedigrwydd Loyn & Co)

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Ym mha fodd y mae'r cynnig yn llwyddo gwneud defnydd effeithlon o adnoddau naturiol a'u hamddiffyn, yn gwella bioamrywiaeth, ac yn arddangos dylunio ar gyfer newid?

Dylai'r DDM egluro'r strategaeth gynaliadwyedd amgylcheddol, y modd y bydd y cynigion yn cyrraedd neu wella ar safonau adeiladau cynaliadwy a'r modd y bydd allyriadau carbon cysylltiedig yn cael eu lleihau. Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth fanwl ar gael mewn adroddiad arall a gyflwynir gyda'r cais cynllunio. Nid oes angen ailadrodd, ond mae angen croesgyfeirio cynhwysfawr at ddogfennau cysylltiedig.

Dylid nodi strategaethau a datrysiadau penodol sy'n cyrraedd dyheadau cynaliadwyedd amgylcheddol. Mae'r canlynol yn enghreifftiau posibl:

Tirwedd/Cynefin

- Y cyfleoedd i wella'r dirwedd bresennol ac ansawdd bioamrywiol y safle.
- Arddangos dealltwriaeth o'r modd y bydd y dirwedd yn cael ei rheoli.
- Fframwaith dylunio'r dirwedd – y defnydd o ddefnyddiau caled a meddal a'r rhaniad rhwng mannau agored cyhoeddus a rhai preifat.

Ynni ac Effeithlonrwydd Adnoddau

- Integreiddio strategaethau dylunio goddefol ac agwedd deunyddiau yn gyntaf (fabric-first) tuag at arbed ynni. Gall hyn gynnwys croesgyfeirio at adroddiad ynni manwl, ar wahân sydd ynghlwm â'r cais.
- Y modd y dewiswyd deunyddiau i leihau'r effaith amgylcheddol.
- Y modd y mae'r datblygiad yn ymateb i effaith materion newid hinsawdd presennol ac yn y dyfodol.
- Integreiddio ffynonellau ynni adnewyddadwy a chymunedol.

Dŵr a Rheoli Gwastraff

- Y modd y cafodd Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SDTC) neu fesurau lliniaru eraill eu hintegreiddio.
- Y modd yr aethpwyd i'r afael â rheoli dŵr yn effeithlon ac yn integredig.
- Mesurau i leihau gwastraff drwy'r broses adeiladu.
- Ystyriaeth o gasglu gwastraff.

Darllen ychwanegol:

- Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

Enghreifftiau:

> **Addysg, Ysgol Gynradd Gymunedol Trimsaran, Sir Gaerfyrddin, t30.**
Mae'r testun yn nodi'r cysyniad cynaliadwyedd amgylcheddol ac yn manylu ar y modd y cafodd hyn ei integreiddio yn y cynllun.

> **Diwylliannol, Pencadlys BBC Cymru, Sgwâr Canolog, Caerdydd, strategaeth gynaliadwyedd, t128-131.**
Mae egwyddorion strategaeth gynaliadwyedd gyfannol yn cael eu nodi a'u defnyddio i hysbysu am strategaeth gyffredinol y safle.



Mae'r cynllun hwn yn rhan o strategaeth gynaliadwyedd y safle ar gyfer Pencadlys arfaethedig BBC Cymru, Caerdydd a roddodd wybodaeth am benderfyniadau dylunio megis gosodiad a siâp a ffurf.
(Delwedd trwy garedigrwydd Foster + Partneriaid)

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

v. Diogelwch Cymunedol

Ym mha fodd mae'r cynnig wedi sicrhau mannau agored cyhoeddus deniadol, diogel a diogelwch drwy wyliadwriaeth naturiol?

Dylai'r adran hon egluro pa fesurau dylunio a gymerwyd i hyrwyddo diogelwch personol a diogelwch eiddo. Mae'r canlynol yn enghreifftiau posibl:

- Y modd y llwyddir i sicrhau gwyliadwriaeth naturiol dros strydoedd, mannau agored cyhoeddus a pharcio ceir.
- Y modd yr ystyriwyd egwyddorion Diogelu Drwy Ddylunio (Secured by Design) a manylion unrhyw ymgynghoriad a gafwyd gyda Swyddogion Designing Out Crime (DOCO).
- Y modd y bydd y strategaeth oleuo yn help i greu amgylchedd mwy diogel.
- Y cyfraniad i greu cymunedau y gall pobl deimlo'n ddiogel ynddynt.
- Y modd y bydd cymysgedd o ddefnydd yn hyrwyddo gweithgaredd ar adegau gwahanol o'r diwrnod.
- Y gwahaniaeth rhwng mannau agored cyhoeddus a rhai preifat a dyluniad ffiniau mannau agored preifat.
- Y mannau y defnyddiwyd deunyddiau arbennig ynghyd â phlannu i helpu hyrwyddo diogelwch.
- Y modd y cafodd eglurder ac ystyriaethau canfod ffordd eu hintegreiddio yn y dyluniad i greu datblygiad sy'n groesawgar ac yn hawdd i bawb ei lywio.

Darllen ychwanegol:

- TAN 12: Dylunio
- Safer Places
- Secured by Design
- Urban Design Compendium

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

Enghreifftiau:

> **Datblygiad Preswyl, Willowbrook West, Caerdydd, t38.**
Mae'r testun yn egluro'r modd y cafodd syniadau dylunio cystadleuol mewn perthynas â diogelwch cymunedol ac athreiddedd eu cylchdroi.

> **Datblygiad Preswyl, Porth Teigr, Caerdydd, t37.**
Mae'r testun sy'n mynd i'r afael â diogelwch cymunedol yn ymdrin â phwyntiau ystyriaeth ar gyfer gosodiad yr adeilad a dyluniad yr amlenni adeiladu. Cafodd mesurau penodol a gymerwyd i wella diogelwch eu nodi.

> **Datblygiad Preswyl, Glas Llyn, Llanwern, Casnewydd, t42.**
Mae'r testun yn nodi'r gwahanol ffyrdd y cafodd diogelwch personol a diogelwch eiddo eu hystyried yn y cynigion ar gyfer gosodiad a'r math o annedd.

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

vi. Ymateb i bolisi cynllunio

Mae'r adran hon yn y ddogfen yn cynnig y cyfle i egluro'r modd y mae'r cynigion wedi ymateb i bolisi cynllunio perthnasol a chanllawiau. Dylai'r polisi cynllunio perthnasol a'r canllawiau fod wedi'u nodi yn y cam dadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun, dylai'r adran hon gynnig crynodeb o'r penderfyniadau dylunio a wnaethpwyd mewn ymateb i'r polisïau hyn.

a. Crynodeb o'r cynnig
b. Y Briff a'r Weledigaeth
c. Dadansoddiad o'r Safle a'r Cyd-destun
d. Dehongliad
e. Datblygu Dyluniad
f. Y Cynnig
i. Nodwedd
ii. Mynediad
iii. Symudiad
iv. Cynaliadwyedd Amgylcheddol
v. Diogelwch Cymunedol
vi. Ymateb i bolisi cynllunio

Enghreifftiau:

> **Canolfan Ymwelwyr, Coed y Brenin, Parc Cenedlaethol Eryri, t30-38.**
Mae'r polisïau cynllunio perthnasol yn cael eu nodi, ond heb eu hailadrodd, ac yna ceir ymateb i'r modd y gwnaeth y datblygiad arfaethedig fynd i'r afael â'r polisi.

> **Addysg, Ysgol Gynradd Gymunedol Trimsaran, Sir Gaerfyrddin, t31.**
Mae'r polisiau perthnasol yn cael eu dehongli a rhoddir ymateb cryno.

Safleoedd Treftadaeth y Byd ac ardaloedd cadwraeth

Mae angen DDM ar gyfer ceisiadau o fewn Safle Treftadaeth y Byd (STB) neu ardal gadwraeth os yw'r cais am un neu fwy o anheddau neu i greu arwynebedd llawr o 100 metr sgwâr (gros) neu fwy. Dylai'r DDM yn yr achosion hyn gynnwys y deunydd a amlinellir uchod yn ogystal â manylion pellach sy'n benodol yn mynd i'r afael â'r modd y mae'r cynnig yn gysylltiedig â'i gyd-destun penodol arbennig.

O ran ceisiadau o fewn STB, rhaid i'r cyd-destun arbennig fod yn ddealladwy drwy asesiad a dadansoddiad yn ystod y cam dadansoddiad o'r safle. Dylai'r dadansoddiad ystyried Gwerth Cyffredinol Eithriadol (GCE) y safle, gan roi sylw penodol i'r priodoleddau, y lleoliad, a'r golygfeydd arwyddocaol i mewn ac allan o'r STB.

Rhaid i'r adran datblygu dyluniad ddangos y modd y cafodd penderfyniadau dylunio eu dylanwadu gan y dadansoddiad hwn o'r GCE a'r STB. Dylai ddangos y modd y cafodd ystyriaethau ynghylch yr opsiynau ddylanwad ar ddealltwriaeth o effaith y cynigion ar y GCE. Dylai hefyd egluro pam y dewiswyd y dull a ffefrir, a'r modd y mae'n cyfrannu at ddiogelu'r GCE.

O ran ceisiadau mewn ardaloedd cadwraeth, dylid ystyried y nodweddion pensaernïol neu hanesyddol sy'n cael eu disgrifio yn yr Arfarniad Ardaloedd Cadwraeth (*Conservation Area Appraisal*) yn y cam dadansoddiad o'r safle. Gellid hefyd gyfeirio at Gynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth (*Conservation Area Management Plans*) sydd ar gael a fyddai o bosib yn cynnwys argymhellion ar gyfer datblygiadau o fewn yr ardal gadwraeth. Dylai'r adran datblygu'r dyluniad ddangos y modd gwnaeth ystyried yr opsiynau gael ei ddylanwadu gan ddealltwriaeth o effaith y cynigion ar nodweddion arbennig yr ardal. Dylai egluro pam y dewiswyd y dull a ffefrir, a'r modd y mae'n cyfrannu at ddiogelu neu wella nodweddion neu edrychiad yr ardal gadwraeth.

Mae'r polisi cenedlaethol a'r canllawiau presennol yn cynnwys cyngor ynglŷn â datblygiadau yn yr ardaloedd hyn a dylai'r DDM gynnwys esboniad cryno o'r modd y mae mynd i'r afael â dylunio a mynediad yn rhoi sylw i'r canlynol:

- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol
- Managing Change in World Heritage Sites in Wales
- Managing Change in Conservation Areas

Darllen ychwanegol:

- TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (i ddod)
- Rheoli Newid mewn Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru
- Rheoli Newid mewn Ardaloedd Cadwraeth
- Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn ffordd Gynaliadwy

6

Canolfan Ymwelwyr Coed y Brenin, Eryri
Cleient: Cyfoeth Naturiol Cymru
Pensaer: Architype

6

Beth os nad oes angen Datganiad Dylunio a Mynediad?

Nid yw DDM yn ofyniad statudol ar gyfer pob cais cynllunio. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru a CDC yn annog ymgeiswyr, fel arfer da, i ystyried llunio dogfen gryno sy'n mynd i'r afael â materion dylunio a mynediad ar gyfer ceisiadau llai. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd egluro'r penderfyniadau dylunio a wnaethpwyd, y modd y maent yn mynd i'r afael â pholisi dylunio cenedlaethol a lleol ac yn cyrraedd amcanion dylunio da, a fydd hefyd yn help i oleuo trafodaethau cyn ymgeisio ac ymgynghoriad.

Pan na fydd DDM yn anghenraid deddfwriaethol, gall yr un fydd yn gwneud penderfyniad wneud cais am fwy o wybodaeth i'w chyflwyno gyda'r cais, pan fo'n briodol neu'n angenrheidiol, i egluro'r broses ddylunio a'r cynllun terfynol.

O ran ceisiadau gyda materion a gedwir yn ôl mae'n arfer da i gyflwyno diweddariad neu atodiad i'r DDM a gyflwynwyd gyda'r cais amlinellol. Bydd hyn yn cynnig manylion pellach am y datblygiad arfaethedig, beth a gafodd ei ystyried yn natblygiad y dyluniad ers y cam amlinellol a'r modd y mae'r datblygiad arfaethedig yn adeiladu ar yr amcanion dylunio da a nodir yn TAN 12.

7

Canolfan Ymwelwyr a Chwaraeon Dŵr Llandegfedd, Pont-y-pŵl
Cleient: Dŵr Cymru Welsh Water
Pensaer: Hall + Bednarczyk

7

Gweithio gyda Datganiadau Dylunio a Mynediad

Ymgynghori cyn ymgeisio

Er nad yn anghenraid deddfwriaethol penodol, mae'n cael ei ystyried yn arfer da i ddefnyddio DDM fel cymorth mewn trafodaethau cyn ymgeisio. Dylai trafodaethau buan am ddylunio fod yn help i sefydlu pa faterion dylunio pwysig y dylid mynd i'r afael â hwy. Gallai DDM yn y cam hwn ymdrin â'r briff, y weledigaeth, y dadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun a'r datblygiad dylunio cynnar.

Dilysu cais cynllunio

Ni fydd cais yn ddilys pan fydd Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu DDM ond na chafodd un ei gyflwyno. Pan fydd DDM yn cyrraedd anghenion y rheoliadau, rhaid i'r ACLl ei gosod ar gofrestr gyhoeddus ceisiadau gyda'r cais perthnasol, a rhaid hysbysu ymgyngoreion ei fod yn dod gyda'r cais cynllunio.

Bydd maint a chynnwys DDM yn amrywio yn ôl y raddfa a'r math o ddatblygiad sydd yn yr arfaeth. O ganlyniad mae'n bosibl y bydd rhai adrannau yn y DDM yn gryno mewn rhai achosion, ond nid yw hyn yn golygu fod y ddogfen yn annigonol. Mae DDM sy'n gryno ac wedi'i ddarlunio'n dda yn aml yn fwy effeithiol nag un hirwyntog ac amleiriog.

Penderfynu ar gais cynllunio

Mae DDM yn cyfleu'r modd y mae'r cais arfaethedig yn ymateb i amcanion dylunio a mynediad da. O'r herwydd gall DDM fod yn ystyriaeth hanfodol y dylai'r un sy'n gwneud penderfyniad gymryd sylw ohono wrth ystyried y cais.

Dylai'r DDM ddarparu digon o wybodaeth i sicrhau bod egwyddorion dylunio sylfaenol y cais yn eglur ynghyd â thystiolaeth ddigonol y bydd yr ansawdd dylunio yn cael ei gyflawni.

Ni ddylai ACLl osod amodau a fydd yn gwthio prif faterion y dyluniad i gael eu hystyried yn ddiweddarach. Dylid cymryd gofal i sicrhau nad yw manylion sy'n destun amodau na rhwymedigaethau cyfreithiol, os oes angen, yn hollbwysig i'r cysyniad dylunio cyffredinol. Os yn briodol, dylid defnyddio amodau a rhwymedigaethau i sicrhau dylunio da a chynnal a chadw tymor hwy.

Gellir atodi amodau cynllunio at ganiatâd cynllunio i fynd i'r afael ag elfennau perthnasol yn y DDM a sicrhau bod yr egwyddorion a'r cysyniadau yn cael eu gwireddu wrth weithredu'r cynnig. O ran cynigion amlinellol, dylai unrhyw ystyriaethau dylunio sy'n hanfodol i'r datblygiad gael eu sicrhau drwy amodau yn y caniatâd amlinellol; dylid defnyddio rhwymedigaeth gynllunio yn unig pan na fydd yn bosibl i atodi amod dilys.

Ceisiadau amlinellol a cheisiadau gyda materion a gedwir yn ôl

Pan fydd cais cynllunio amlinellol yn cael ei gyflwyno, gall ACLl ystyried y bydd angen gwybodaeth ychwanegol, i ddatblygu'r datganiad gwreiddiol, wrth gyrraedd y cam materion a gedwir yn ôl (er nad yw hyn yn hanfodol i gymeradwyo'r cais amlinellol). Mewn achosion o'r fath, dylai'r ACLl ystyried nodi gofyniad o'r fath drwy amod yn y cais cynllunio amlinellol.

Dadansoddiad o'r safle a'r cyd-destun

Mae Canllawiau ar Ddadansoddi Safle a Chyd-destun Llywodraeth Cymru yn darparu awgrymiadau i'r rhai sy'n cyflawni ac yn adolygu dadansoddiad a bydd yn fuddiol wrth ystyried y DDM.

Adolygu amcanion dylunio da mewn DDM

Mae'r cwestiynau canlynol y cynnig awgrymiadau i ystyried datblygiad y dyluniad sy'n cael ei gyfleu yn y DDM. Maent yn adlewyrchu arferion da a disgwyliadau polisi a chanllawiau. Ni fydd pob agwedd yn berthnasol i bob cais, ond mewn achos yr ystyrir fod agwedd yn berthnasol ond heb ei chyrraedd, byddai'n briodol i ofyn am wybodaeth ychwanegol. Mewn rhai achosion gall y DDM nodi'r rhesymau pam na chyrhaeddwyd agwedd o arfer da wedi i hynny gael ei gloriannu yn sgil blaenoriaethau cystadleuol.

Nodwedd

A yw'r DDM yn gwneud y canlynol?

- nodi'r defnydd neu'r gymysgedd o ddefnydd arfaethedig a'r modd y bydd hyn yn cynnal creu lle llwyddiannus a fydd yn fywiog, yn gerddadwy, yn hygyrch ac yn darparu cyfleoedd i ryngweithio cymdeithasol.
- egluro pam fod y defnydd arfaethedig yn addas yn y cyd-destun.
- egluro'n amlwg a chyfiawnhau maint y datblygiad o ran nodweddion yr ardal gylchynol.
- nodi'r dwysedd arfaethedig a'r modd y bydd hyn yn cynnal cyfleusterau angenrheidiol a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.
- arddangos ystyriaeth o'r gymysgedd o ddeiliadaethau ar draws y safle.
- dangos hierarchaeth eglur o strydoedd i gynorthwyo eglurder y datblygiad ac i egluro'r modd y bydd dyluniad y strydoedd yn ategu'r hierarchaeth hon.
- nodi mannau agored wedi'u diffinio o fewn y datblygiad a'r modd y mae hyn yn sefydlu lleoliad ar gyfer adeiladau arfaethedig.
- dangos bod pob man agored wedi'i ddiffinio'n glir gan adeiladau, bod ganddynt ffryntiad gweithredol a'u bod o fewn golwg eiddo cyfagos er mwyn darparu gwyliadwriaeth naturiol.
- egluro'r modd y cafodd man gwyrdd ei ymgorffori yn y datblygiad arfaethedig er mwyn darparu man amwynder hwylus sy'n ddiogel ac yn ddeniadol.
- darparu sail resymegol eglur ar gyfer y deunyddiau arfaethedig a ddarparwyd yn seiliedig ar ystyriaeth o'r cyd-destun lleol, gweledigaeth, gofynion perfformiad a chyfyngiadau cyllidol.
- dangos ystyriaeth o raddfa, màs a ffurf y datblygiad yn sgil y cyd-destun gyda sail resymegol eglur i'r cynigion.
- cynnig gwybodaeth ddigonol am fanylion yr adeiladau.

Mynediad

A yw'r DDM yn gwneud y canlynol?

- nodi digon o fannau parcio i'r anabl yn y lleoliad cywir.
- cynnwys cynllun llwybr heb ris o fewn ac o amgylch y datblygiad.
- dangos bod lleoliad amwynderau wedi'i ystyried.
- dangos bod mynediad gwastad i'r adeilad(au) wedi'i ddarparu.
- nodi llwybrau cerdded diogel ac uniongyrchol.
- nodi toiled hygyrch lle bo hynny'n briodol.
- dangos darpariaeth lifftiau lle bo'r angen.
- nodi lleoliadau ar gyfer storio a gwefru sgwteri i'r anabl lle bo'r angen.
- cynnig gwybodaeth os oes eiddo yn cyrraedd safonau Cartrefi Gydol Oes.
- arddangos eglurder y datblygiad ac a oes systemau canfod ffordd priodol wedi'u hintegreiddio.

Symudiad

A yw'r DDM yn gwneud y canlynol?

- egluro'r modd y mae'r lleoliad a gosodiad y datblygiad yn sicrhau bod cyfleusterau a gwasanaethau lleol o fewn pellter cerdded i'r eiddo.
- nodi prif bwyntiau mynediad i'r safle ac a oes digon ohonynt ac yn y lleoliadau cywir.
- nodi hierarchaeth ffyrdd eglur a dangos y modd y mae lled stryd, uchder adeiladau, ymdriniaeth o'r dirwedd ac ystyriaethau parcio yn cynnal y gwahaniaeth rhwng gwahanol fathau o strydoedd.
- nodi llwybrau byr a dangos bod cerddwyr a llwybrau seiclo yn ymateb iddynt.

h.y. cysylltu â chyfleusterau lleol, gwasanaethau neu safleoedd trafnidiaeth gyhoeddus.

- dangos bod cysylltiadau o'r datblygiad arfaethedig i'r strydoedd cyfagos a mannau agored sy'n hygyrch i'r cyhoedd wedi cael eu hintegreiddio'n gadarnhaol ac yn ddiogel yn y gosodiad arfaethedig.
- egluro'r modd y cafodd y strydoedd a'r mannau agored eu dylunio i fod yn gyffyrddus i gerddwyr a beicwyr ac yn addas ar gyfer pob defnyddiwr.
- nodi safleoedd trafnidiaeth gyhoeddus a'r modd y mae'r gosodiad wedi ymateb i hyn. e.e. dwysedd uwch yn agos at ganolfannau trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau cerdded a seiclo yn arwain at safleoedd.
- dangos bod cyfleoedd newydd ar gyfer llwybrau bysiau a safleoedd bysiau wedi'u hystyried a'u hintegreiddio yn y gosodiad.
- arddangos dealltwriaeth o anghenion parcio a bod trefniadau parcio wedi'u hystyried fel na fydd ceir yn rheoli'r datblygiad.
- dangos mai canlyniad y cynigion fydd creu strydoedd dymunol a fydd yn gyffyrddus, diogel ac yn braf o ran golwg yn hytrach na rhai fydd yn cael eu rheoli gan anghenion ceir.

Cynaliadwyedd Amgylcheddol

A yw'r DDM yn gwneud y canlynol?

- nodi'n eglur amcanion amgylcheddol y datblygiad.
- cynnig esboniad eglur o'r modd yr aethpwyd i'r afael â'r amcanion amgylcheddol.
- dangos ystyriaeth o berfformiad amgylcheddol o'r camau cyntaf yn cynnwys gogwydd adeiladau a meithrin agwedd 'deunyddiau'n gyntaf'.
- nodi'r cyfleoedd i wella ansawdd tirwedd a bioamrywiaeth a gafodd eu hystyried a'u hintegreiddio yn y cynigion.
- egluro'r modd y cafodd rheolaeth gyfredol o'r dirwedd ei hystyried wrth ddatblygu'r cynigion.
- nodi pa fesurau a gymerwyd i sicrhau y bydd y datblygiad yn arbed ynni.
- nodi os dewiswyd deunyddiau a fydd yn lleihau'r effaith amgylcheddol.
- dangos ystyriaeth o'r defnydd o SDTC a, pan fo'n briodol, y modd y cawsant eu hintegreiddio'n llwyddiannus yn y gosodiad arfaethedig ar y safle.
- nodi mannau casglu gwastraff ar gynllun a'r modd y cawsant eu hintegreiddio'n llwyddiannus yn y gosodiad arfaethedig

Diogelwch cymunedol

A yw'r DDM yn gwneud y canlynol?

- egluro'r modd y gall y gymysgedd o ddefnydd arfaethedig hyrwyddo gweithgaredd a fydd yn help i wneud y datblygiad/ardal deimlo'n fwy diogel.
- nodi'r modd y bydd y gosodiad yn sicrhau gwyliadwriaeth naturiol dros strydoedd a mannau agored cyhoeddus.
- dangos bod egwyddorion Diogelu Drwy Ddylunio wedi'u hystyried.
- arddangos bod goleuo wedi'i ystyried yn rhan o ystod o fesurau i greu amgylchedd diogel.
- nodi diffiniad eglur o fannau agored cyhoeddus a mannau agored preifat.
- nodi'r modd y cafodd ffiniau eu hystyried yng ngosodiad y datblygiad yn ogystal â thriniaeth arfaethedig y ffiniau

Darllen ychwanegol:

- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu
- Canllawiau ar ddadansoddi safle a chyd-destun: Pennu gwerth safle
- Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy

Atodiad

Atodiad 1:
Cyd-destun Deddfwriaethol Datganiadau Dylunio a Mynediad

Yn dilyn Adolygiad yn 2013 o Ddatganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, gwnaethpwyd newidiadau i'r gofynion am Ddatganiad Dylunio a Mynediad. Mae'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn i Ddatganiadau Dylunio a Mynediad gael eu cyflwyno gyda rhai ceisiadau cynllunio fel y nodwyd isod. Ni fydd cais yn ddilys pan fo angen DDM ond nad oes un wedi'i gyflwyno.

O fis Mawrth 2016 mae angen cyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad gyda cheisiadau cynllunio (amlinellol neu lawn) ar gyfer:

- datblygiadau "mawr" ac eithrio rhai yn ymwneud â gweithrediadau mwyngloddio, datblygu gwastraff, llacio amodau (adran geisiadau '73') a cheisiadau am newid sylweddol yn y defnydd o dir neu adeiladau, a

- datblygu mewn ardal gadwraeth neu Safle Treftadaeth y Byd sydd ar gyfer darparu un neu fwy o anheddau neu greu arwynebedd llawr o 100 metr sgwâr (gros) neu fwy

O ran y ceisiadau hynny nad ydynt angen DDM, mae'r gallu gan Awdurdodau Cynllunio Lleol i wneud cais am eglurhad pellach neu wybodaeth am ddylunio yn ystod y broses benderfynu os bydd hynny'n eu cynorthwyo i benderfynu ar gais o dan bolisïau dylunio cynlluniau datblygu.

Mae'r diffiniad o ddatblygiad 'mawr', yn ôl cyfraith gwlad, yn cynnwys; datblygiad preswyl gyda 10 neu fwy o unedau, neu sy'n digwydd ar safle gydag arwynebedd o 0.5 hectar neu fwy, unrhyw ddatblygiad a fydd yn creu 1,000 metr sgwâr neu fwy o arwynebedd llawr, neu; datblygiad ar safle gydag arwynebedd o 1 hectar neu fwy.

Nid yw cais am faterion a gedwir yn ôl yn gais am ganiatâd cynllunio ac, o'r herwydd nid yw DDM yn ofyniad statudol. Serch hynny, os yw'r DDM am weithredu fel 'dogfen fyw', dylai datganiad cynnydd yn diweddaru pa newidiadau, os o gwbl, a ddigwyddodd ers cyflwyno'r DDM gwreiddiol adeg y cam amlinellol, ddod gyda'r cais am faterion a gedwir yn ôl. Gallai hefyd fod yn briodol i osod amodau yn ymwneud â materion sydd wedi'u cynnwys o fewn y DDM pan fydd y caniatâd amlinellol yn cael ei ganiatáu.

Nid oes angen DDM ar gyfer ceisiadau nad ydynt ar gyfer caniatâd cynllunio (e.e. ceisiadau'n ymwneud â rheolaeth hysbysebu, gorchmynion diogelu coed neu storio sylweddau peryglus).

Atodiad 2:
Egwyddorion dylunio cynhwysol

Mae dylunio da yn ddylunio cynhwysol, a dylai dylunio cynhwysol fod yn rhan annatod o'r broses ddylunio sy'n ymestyn o'r dechreuad, drwy'r cyfnodau cynllunio, dylunio manwl ac adeiladu'r prosiect ac i'r ymarferion rheoli a fabwysiadwyd. Mae dylunio cynhwysol yn llawer mwy na darparu ar gyfer anghenion pobl anabl. Mae'n ymwneud â dylunio a rheoli amgylchedd mewn modd sy'n diddymu'r rhwystredigaeth a'r rhwystrau sy'n wynebu llawer o ddefnyddwyr yn cynnwys pobl anabl, pobl hŷn, plant a theuluoedd.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb (DC) 2010 yn gofyn am sylw priodol i'w roi i leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol, dileu gwahaniaethu, aflonyddu, ac erledigaeth wedi'i seilio ar 'nodweddion gwarchodedig' diffiniedig.

Ymhlith y nodweddion yma mae: anabledd, oed, rhyw, hil, crefydd neu gredo, tueddfryd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth ac ailbennu rhywedd.

Mae'r DC ynglŷn â gwahaniaethu; mae ynglŷn â phobl a chyfle cyfartal – nid yw'n unig ynglŷn ag agweddau ffisegol dyluniad neu adeilad. Mae dyletswydd ar ddarparwr cyfle neu wasanaeth i sicrhau nad oes gwahaniaethu'n digwydd. Gall y gwahaniaethu hwnnw fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol a gall amlygu'i hun mewn sawl ffordd yn cynnwys y modd y mae amgylchedd ffisegol wedi'i gynllunio neu yn y modd y bydd cyfleoedd a gwasanaethau'n cael eu cyflenwi a'u rheoli.

O ran yr amgylchedd ffisegol, nid oes gan y DC ei hun unrhyw ofynion ar sail perfformiad, nid yw chwaith yn cynnig cyngor ar faterion technegol na manylebau – felly nid yw'n bosibl cael adeilad neu gynnyrch sy'n 'cydymffurfio â'r DC'. Efallai y bydd dyluniadau yn dilyn y canllawiau arferion da diweddaraf, ond y modd y bydd yr amgylchedd ei hun yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol fydd o bosib yn penderfynu yn y pen draw a fydd y dyletswyddau gwrthwahaniaethol a osodir o dan y DC yn cael eu cyrraedd.

Bydd y mesurau angenrheidiol i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn aml yn amrywio yn ôl amgylchiadau achosion unigol. Mae'r DC yn gosod y sail i ddileu gwahaniaethu. Gall y modd y bydd hynny'n cael ei gyflawni ddibynnu ar sawl ystyriaeth – un yn unig yw dyluniad yr amgylchedd ffisegol.

Egwyddorion Dylunio Cynhwysol

Mae'r pum egwyddor ganlynol wedi'u mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru a CDC i ddisgrifio'r nod cyffredinol ar gyfer amgylchedd cynhwysol wedi'i ddylunio'n briodol. Mae Dylunio Cynhwysol yn gwneud y canlynol:

- Gosod pobl wrth galon y broses ddylunio
- Cydnabod amrywiaeth a gwahaniaeth
- Cynnig dewis pan na all un ateb dylunio gael ei gymhwyso ar gyfer pob defnyddiwr
- Darparu ar gyfer defnydd hyblyg
- Darparu adeiladau ac amgylcheddau sy'n gyfleus, yn ddymunol ac yn ddiogel i'w defnyddio gan bawb

Bydd dilyn y pum egwyddor hyn ym mhroses ddylunio datblygiad yn arwain at amgylchedd fydd â'r nodweddion canlynol:

- **Cynhwysol** fel y gall pawb ei ddefnyddio'n ddiogel, yn rhwydd a gydag urddas.
- **Ymatebol** gan ystyried yr hyn mae pobl yn ei ddweud eu bod eu hangen a'u heisiau.
- **Hyblyg** fel y gall pobl wahanol ei ddefnyddio mewn ffyrdd gwahanol.
- **Cyfleus** fel y gall pawb ei ddefnyddio heb ormod o ymdrech na gwahanu.
- **Cymhwysol** ar gyfer pawb, ni waeth beth fo'u hanabledd, oedran, symudedd, ethnigrwydd neu amgylchiadau.
- **Croesawgar** heb unrhyw rwystrau trwsgl a allai gau rhai pobl allan.
- **Realistig** yn cynnig mwy nag un ateb i helpu cydbwyso anghenion pawb a chydnabod nad yw'r un ateb o reidrwydd yn addas i bawb.

Nid rhwystr ychwanegol i'w oresgyn yw dylunio cynhwysol. Dylai fod yn greiddiol i weledigaeth cynllun a chael ei integreiddio drwyddo draw yn y broses ddylunio. Felly dylai cyswllt cynhenid fod rhwng cydrannau'r dylunio a'r mynediad drwy'r DAS i gyd.

Manteision dull Dylunio Cynhwysol

Mae mabwysiadu dull dylunio cynhwysol yn cynnig cyfle i ddylunwyr a rheolwyr amgylcheddau i wneud y canlynol:

- Bod yn greadigol
- Rhagori ar isafswm y manylebau technegol
- Dod o hyd i atebion dylunio unigol ac arloesol os fydd angen
- Datblygu adeiladau, mannau agored ac amgylcheddau sydd nid yn unig yn rhai cain neu'n ddatganiad beiddgar ond sydd hefyd yn sicrhau fod gan ddefnyddioldeb, swyddogaeth ac anghenion y defnyddiwr terfynol ran sylfaenol yn y broses ddylunio a rheoli

Atodiad 3:
Darllen ychwanegol

– Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2012/801/article/7/made/welsh

– Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/59/made/welsh

– Polisi Cynllunio Cymru
http://gov.wales/docs/desh/publications/150924planning-policy-wales-edition-7-cy.pdf

– TAN 12: Dylunio
http://gov.wales/docs/desh/publications/140731technical-advice-note-12-cy.pdf

– Canllaw Ymarferol: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy
http://gov.wales/docs/desh/publications/150311practice-guidance-planning-for-sustainablebuildings-cy.pdf

– Canllawiau ar Ddadansoddi Safleoedd a Chyd-destun: Pennu gwerth safle
http://gov.wales/docs/desh/publications/160513-site-and-context-analysis-guide-cy.pdf

– Gweithdrefnau Rheoli Datblygu Newydd, Atodiad 1 – Canllawiau Ymgynghori cyn Ymgeisio, Llywodraeth Cymru
http://gov.wales/topics/planning/policy/dear-cpo-letters/new-development-management-procedures/?lang=cy

– Llawlyfr Strydoedd
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/3891/ pdfmanforstreets.pdf

– Model Design Guide for Wales
http://cdn.dcfw.org.uk/posw_residential_guide1.pdf

– Building for Life 12 Wales
http://dcfw.org/building-for-life-12-wales/

– Urban Design Compendium
https://udc.homesandcommunities.co.uk/urban-design-compendium?page_id=&page=1

– Rheoliadau Adeiladu
http://gov.wales/topics/planning/buildingregs/?lang=cy

– Llunio Fy Nhref
http://www.shapemytown.org/

– Canllawiau Dylunio ar gyfer Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
http://gov.wales/docs/det/publications/141209-active-travel-design-guidance-en.pdf

– Inclusive Design in the Built Environment, Training Manual
http://cdn.dcfw.org.uk/InclusiveDesign_traininghandbook.pdf

– Guidance on the Use of Tactile Paving Surfaces
https://www.gov.uk/government/publications/guidance-on-the-use-of-tactile-paving-surfaces

– Secured by Design, Design Guides
http://www.securedbydesign.com/industry-advice-and-guides/#dsgngd

– Access for All Design Guide, Environment Agency
http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140328084622/http://www.environment-agency.gov.uk/research/library/publications/141756.aspx

– Goresgyn y Rhwystrau, Cadw
http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Overcoming_the_Barriers_CY.pdf

– TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol – (I ddod)

– Asesiad o Effaith Treftadaeth yng Nghymru, Cadw – (I ddod)

– Rheoli Newid mewn Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru, Cadw – (I ddod)

– Rheoli Newid mewn Ardaloedd Cadwraeth, Cadw – (I ddod)

– Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn ffordd Gynaliadwy, Cadw
http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy

– Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu
http://gov.wales/topics/planning/policy/circulars/welshgovcirculars/wgc-16-2014/?lang=cy

Cydnabyddiaeth

Awduron:
Ysgrifennwyd a lluniwyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru i Lywodraeth Cymru

Tîm prosiect CDC:
Jen Heal, Dylunydd Trefol, Ymgynghorydd Dylunio CDC
Wendy Maden, Cynorthwyydd Ymchwil Dylunio
Amanda Spence, Pensaer, Ymgynghorydd Dylunio CDC
Cafodd y prosiect ei oruchwylio a'i reoli ar ran CDC gan Carole-Anne Davies, Prif Weithredwr Comisiwn Dylunio Cymru a gan Jon Fudge, Stuart Ingram a Max Hampton ar ran Llywodraeth Cymru.

Enghreifftiau a Delweddau:
Darparwyd detholiadau o enghreifftiau o Ddatganiadau Dylunio a Mynediad a delweddau trwy garedigrwydd y rhai a enwir a gyda chydsyniad y timau cleientiaid a dylunio. Yr ydym yn ddiolchgar i bob cyfrannwr a ddarparodd ddeunydd.

Cyfieithiad Cymraeg:
Llinos Jones

Dylunio:
www.theundercard.co.uk